

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GWASANAETHAU TECHNEGOL

DYDD Gwener, 15 Gorffennaf 2016

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

S. Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianeg
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 26AIN MAI 2016

PENDERFYNWYD Ilofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 26^{ain} Mai, 2016 yn gofnod cywir.

**3. BWRIAD I GYFLWYNO TERFYN CYFLYMDER O 30MYA - PWLL-TRAP,
SANCLÊR LLEIHOU'R TERFYN CYFLYMDER O 40MYA I 30MYA**

Rhodddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol bod yr Awdurdod wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer cyflwyno'r Gorchymyn uchod mewn perthynas â'r priffyrdd y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad (Hysbysiad Cyhoeddus yr Atodlen Lleoliadau) gan wahodd sylwadau ar hynny erbyn 25^{ain} Mawrth, 2016. Er nad oedd dim o'r ymgynghoreion statudol wedi gwrthwynebu'r cynigion, roedd un gwrthwynebiad wedi dod i law yn dilyn cyhoeddi'r Hysbysiad fel y manylwyd arno, ynghyd ag ymateb y swyddog, yn Atodiad 2 yr adroddiad, a nodwyd hyn. Ystyriwyd bod angen lleihau'r terfyn cyflymder er mwyn sicrhau diogelwch ffyrdd yn gyffredinol yn dilyn cynnydd mewn traffig a cherddwyr a hynny yn rhannol yn sgil y datblygiadau tai newydd a'r cynnydd yn y boblogaeth, drwy Pwll-trap.

PENDERFYNWYD

3.1 cadarnhau Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Ffyrdd Cyfyngedig) 2016 (Gosod Terfyn Cyflymder o 30m.y.a ym Mhwll Trap, Sanclêr) fel y manylwyd arno yn Atodiad 1 (Hysbysiad Cyhoeddus yr Atodlen Lleoliadau);

3.2 rhoi gwybod am y penderfyniad uchod i'r gwrthwynebwr a'r aelod lleol.

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD